

Atodiad 1

Datblygu'r Ffrâm a Rhestr Godio ar gyfer Pennod 6

Y ffrâm godio ddrafft

Dyma oedd y ffrâm godio roddais i at ei gilydd yn wreiddiol gan geisio nodi'r math o wybodaeth fyddai'n ddelfrydol i'w gasglu ar gyfer yr ymchwil.

1. Yn ôl amser – yn ystod cyfnod y gem/rhaglen/digwyddiad ac ar wahân i hynny
2. Yn ôl iaith – oes Cymraeg o gwbl yn y trydar
3. Yn ôl lleoliad - oes modd gweld a ydyn nhw yn y digwyddiad ai peidio?
4. Yn ôl rhyw - ydi hi'n amlwg os ydyn nhw'n wryw neu benyw?
5. Yn ôl perthnasedd a'r darllediad - Cynnwys mewn perthynas â'r darllediad teledu (gan gofio bod yna sylwebaeth radio hefyd); yn ôl perthnasedd a darllediadau eraill - Cynnwys mewn perthynas â'r darllediadau eraill (radio, sianeli eraill)
6. Yn ôl math o drydariad? Sut allwn ni ddisgrifio natur y trydar – ffatig neu beidio; sgwrs/trafodaeth, gwybodaeth, cwestiwn,
 - a. ffatig
 - b. sgwrs/trafodaeth/ymateb
 - c. meta
 - d. barn
7. Yn ôl pwnc
8. Cyfeirio at Umap neu wefannau/cydgasglwyr Cymraeg eraill?

Y cyfeirlyfr codio drafft (Coding Manual)

Penderfynwyd ar y cyfeirlyfr isod fel drafft ar gyfer casglu data. Yn nes mlaen fe hogwyd y drafft yn gyfeirlyfr terfynol, gan gymryd i ystyriaeth natur y data a gasglwyd.

Uned godio: 1 trydariad o fewn yr amser gosodedig

Nifer trydariadau: 24awr (amser hafal bob ochr i'r darllediad os yn bosib)

Rhif	Enw Newidyn	Côd	Disgrifiad
------	-------------	-----	------------

Newidyn			
1	Amser	1	Cyn TX
		2	Yn ystod TX
		3	Ar ôl TX
2	Iaith	1	Cymraeg*
		2	Saesneg (dim Cymraeg o gwbl)
		3	Arall
3	Lleoliad	1	Yn y digwyddiad
		2	Ddim yn y digwyddiad / gwyllo
		3	Arall / Aneglur
4	Rhyw	1	Benyw
		2	Gwryw
		3	Arall / Aneglur
5	Perthnasedd i'r darllediad S4C	1	Cyfeirio at y darllediad teledu
		2	Dim cyfeiriad at y darllediad teledu
		3	Cyfeirio at ddarllediad teledu/radio arall
		4	Defnydd @s4csioe
		5	RT / arall
		6	Trydariad gan y cynhyrchiad ei hun
6	Math o destun	1	Ffatig
		2	Sgwrs/trafodaeth

		3	Barn
		4	Meta-drafodaeth
		5	Gwybodaeth
		6	Dolen(ni) at gynnwys allanol
		7	RT
		8	RT gyda sylw
		9	Cwestiwn
		10	Cyfarchiad
		11	Arall
		12	Gan y rhaglen
7	Math o bwnc	1	Y rhaglen / cynhyrchiad
		2	Y digwyddiad
		3	Y platfform
		4	Personol
		5	Arall
8	Cyfeiriad at gydgasglwyr / y we Gymraeg	1	Oes
		2	Nac oes

Trefnu'r data a gasglwyd o Twitter

Ar gyfer y dadansoddiad cynnwys hwn roedd meddalwedd Twapper Keeper yn casglu rhai mathau o ddata o API Twitter. Oherwydd diffyg arian ar gyfer cyflogi rhaglennydd, nid oeddwn yn gallu gosod fy fersiwn fy hun o Twapper Keeper ar

weinydd i ddechrau. Golygai hyn nad oedd dull mor gyflawn o gasglu ar gael ym mis Gorffennaf ac Awst, o'i gymharu â'r hyn a fyddai'n bosib gyda gosodiad meddalwedd Twapper Keeper ar weinydd preifat. Mae TwapperKeeper.com yn casglu trydariadau o amgylch hashnod penodol ond nid yw'n gallu rhoi'r data ar gael i'w lawrlwytho felly rhaid oedd crafu'r data oddi yno gan ddefnyddio'r ffrwd RSS a mewnoforiwr data yn y rhaglen Microsoft Excel. Nid oedd y broses hon yn rhoi data glân o gwbl ac roedd peth meta ddata'n cael ei golli yn y broses.

Ym mis Awst 2011 llwyddwyd i osod y meddalwedd Twapper Keeper ar weinydd preifat gan roi'r gallu i gasglu trydariadau a'i allforio gyda gwybodaeth llawer mwy manwl. Gwnaed hyn ar gyfer 4 gêm olaf Cymru yng Nghwpan Rygbi'r Byd.

Er mwyn gweld yn union pa ddata y gellir ei ddefnyddio a'i gymharu ar draws y setiau data a gasglwyd drwy'r gweinydd preifat a thrwy TwapperKeeper.com rhaid cymharu'r meysydd data gwahanol a gweld beth y gellir ei gadw.

Meysydd sydd yn y data Sioe ac Eisteddfod

Dyma'r meysydd a gafwyd wrth allforio o'r meddalwedd casglu trydariadau TwapperKeeper.com ac oedd yn cynnwys trydariadau a wnaed gyda hashnodau neu allweddeiriau cysylltiedig a digwyddiadau'r Sioe Frenhinol Cymru ac Eisteddfod Genedlaethol Cymru.

Teitl y newidyn	Disgrifiad manwl
versiontitle	Y fersiwn o Twapper Keeper sydd wedi cael ei ddefnyddio (cyson ar gyfer pob trydariad)
link	Yr URL i'r archif sydd wedi ei allforio o Twapper Keeper (cyson ar gyfer pob trydariad)
description	Disgrifiad yr archif ar Twapper Keeper e.e. "Y Sioe" (cyson ar gyfer pob trydariad)
language	Côd iaith e.e. "en-us" - ond o bosib nid yr iaith sydd wedi ei godio yn y trydariad gan Twitter, ond iaith y porwr wnaeth yr allforiad. Nid yw'n glir pam bod hyn yn digwydd.

docs	URL i http://twapperkeeper.com (cyson ar gyfer pob trydariad)
generator	Y llinyn "PHP" (cyson ar gyfer pob trydariad)
title2	"[enw defnyddiwr]: [cynnwys y trydariad] - [dyddiad e.e. Wed, 20 Jul 2011 07:09:52 +0000] - tweet id [rhif unigryw y trydariad]"
description3	"[enw defnyddiwr]: [cynnwys y trydariad] - [dyddiad e.e. Wed, 20 Jul 2011 07:09:52 +0000] - tweet id [rhif unigryw y trydariad]"
pubDate	Dyddiad y trydariad yn y fformat : "Wed, 20 Jul 2011 07:09:52 +0000"
ns1:lat	cyfesurynnau lledred os ar gael; gwag os nad oes
ns1:long	cyfesurynnau hydred os ar gael; gwag os nad oes
guid	"hashnod:twapper:feed:hashhashnod:[yr hashnod / gair allweddol a archifwyd]:[rhif unigryw y trydariad]"
isPermaLink	Y llinyn "FALSE" (cyson ar gyfer pob trydariad)

Meysydd data Cwpan Rygbi'r Byd 2011

Dyma'r meysydd a gafwyd wrth allforio o'r meddalwedd casglu trydariadau Twapper Keeper ar weinydd preifat ac oedd yn cynnwys trydariadau a wnaed gyda hashnodau neu allweddeiriau cysylltiedig a gemau rygbi Cwpan Rygbi'r Byd 2011.

Testun y newidyn	Disgrifiad
ARCHIVESOURCE	O ba ffynhonnell / API daeth y trydariad (e.e. Twitter search)

TEXT	Testun y trydariat
TO_USER_ID	Rhif unigryw cyfrif y defnyddiwr y cyfeiriwyd y trydariat atyn nhw (os yn @ reply brodorol Twitter)
FROM_USER	Enw defnyddiwr y cyfrif anfonodd y trydariat
ID	Rhif unigryw y trydariat
FROM_USER_ID	Rhif cyfrif unigryw y defnyddiwr a gyhoeddodd y trydariat
ISO_LANGUAGE_CODE	Côd ISO y trydariat yn ôl dadansoddiad Twitter
SOURCE	Disgrifiad o'r ddyfais neu feddalwedd lle cyhoeddwyd y trydariat (e.e. Twitter for iPhone)
PROFILE_IMG_URL	Dolen i'r URL ar gyfer llun proffil y defnyddiwr
GEO_TYPE	Disgrifiad o'r math o gyfesurynnau (e.e. "point")
GEO_COORDINATES_0	Cyfesurynnau lledred
GEO_COORDINATES_1	Cyfesurynnau hydred
CREATED_AT	Amser cyhoeddi'r trydariat ar ffurf testun (e.e. "Sat, 08 Oct 2011 06:54:34 +0000")
TIME	Amser cyhoeddi'r trydariat ar ffurf cyfanrif

Beth oedd modd eu cadw'n gyson?

Beth oedd y meysydd oedd yn bosib eu cadw'n gyson rhwng y ddau fath o allforiad data?

Yn anffodus dim ond cyfran o'r newidynnau oedd yn bosib eu cysoni rhwng y ddau allforiad data. Gweler y tabl isod:

Testun y newidyn	Disgrifiad
TEXT [title2]	Testun y trydariad (rhaid stripio hwn allan o newidyn "title2" yn y data Sioe ac Eisteddfod)
FROM_USER [description3]	Enw defnyddiwr y cyfrif anfonodd y trydariad (rhaid stripio hwn allan o newidyn "description3" yn y data Sioe ac Eisteddfod)
ID [guid]	Rhif unigryw y trydariad (rhaid stripio hwn allan o newidyn "description3" yn y data Sioe ac Eisteddfod)
GEO_COORDINATES_0 [ns1: lat]	Cyfesurynnau lledred
GEO_COORDINATES_1 [ns2: long]	Cyfesurynnau hydred
CREATED_AT [pubDate]	Amser cyhoeddi'r trydariad ar ffurf testun (e.e. "Sat, 08 Oct 2011 06:54:34 +0000")

Gellir dweud nad yw rhai newidynnau mor bwysig neu ddefnyddiol â hynny o ran ateb y cwestiynau ymchwil (e.e. ffynhonnell y trydariad - API neu ddyfais); ond mae rhai newidynnau allai fod yn ddefnyddiol o ran trefnu data yn nes ymlaen. Mae'r rhain yn cynnwys rhif unigryw y person yr anfonwyd y trydariad atynt (efallai ar gyfer edrych ar sgwrsiau rhwng unigolion a gwneud dadansoddiad rhwydwaith).

O bosib gellir gwneud dadansoddiad pellach ar rai o'r setiau data mwy sydd yn gysylltiedig â'r darllediadau rygbi gan ddefnyddio'r newidynnau hyn ond ni fyddai modd gwneud cymhariaeth.

Roedd cysoni'r ddau set o ddata yn golygu cryn waith glanhau a golygu â llaw i symud a dileu elfennau o'r newidynnau er mwyn glanhau'r data amrwd i'w wneud yn haws i'w drin yn gyfartal.

Newidynnau ychwanegol i'w codio â llaw

Bydd yr adran hon yn trafod y newidynnau sydd angen eu ychwanegu a'u codio er mwyn gallu ateb y cwestiynau ymchwil.

Iaith y trydariad

Er mwyn gallu dadansoddi'r iaith a ddefnyddiwyd yn y trydariadau, penderfynwyd gwneud siart llif lle roedd modd mynd trwy'r atebion fesul un a chreu dull systematig o wirio iaith y trydariad. Mae'r codio er mwyn casglu gwybodaeth i ateb cwestiynau ymchwil 2-4.

Dyma'r cwestiynau yn y siart llif:

1. Oes yna Gymraeg yn y trydariad o gwbl? (Os NAC OES yna nid oes rhai mynd ymhellach yn y siart llif; os OES ewch ymlaen i rif 2...)
2. Ydy'r Gymraeg sydd yno yn enwau (priod) yn unig (fel y deallir y trydariad i fod yn Saesneg)?
3. Oes rhannau Cymraeg a rhannau Saesneg i'r trydariad (mae brawddegau Cymraeg a Saesneg gyfochrog yn yr un trydariad)?
4. Ydy'r trydariad yn bendant yn ddealladwy fel un Cymraeg (gall gynnwys geiriau benthyg Saesneg ayyb)?
5. Ydi'r iaith yn ddealladwy fel Saesneg a Chymraeg (e.e. "Briliant Shayne! Cmon Cymru!")?
6. Ydi'r trydariad yn cynnwys testun di-iaith (e.e. gwenogluniau, dolen ayyb)?

Wedi ystyriaeth o'r rhestr hwn ar ôl gwneud y gwaith codio sylwais y dylai 6. fod ar y cychwyn ac y dylai'r rhestr ddechrau gyda sero er mwyn gallu rhoi gwerth *null* yn y

gronfa ddata am ba bynnag reswm. Nid yw hyn yn effeithio ar y canlyniadau fodd bynnag.

Ar ôl gorffen y gwaith codio sylweddolwyd nad oedd y dull yn cydnabod defnydd ieithoedd eraill. Ni chafwyd defnydd o ieithoedd eraill yn yr un achos, ond byddai wedi gwneud y dull codio yn fwy cadarn.

Ymwneud gyda'r cynhyrchiad teledu

Er mwyn ceisio mesur sut fath o ymwneud sydd yna rhwng y defnyddiwr Twitter a'r rhaglen deledu rhaid oedd codio'r cynnwys am y gwahanol fathau o ymwneud. Byddai hyn yn mynd tuag at roi data i ateb cwestiwn ymchwil 5.

Gellir ei rannu yn dri newidyn lle mae ateb oes / nac oes. Os oes ateb "nac oes" i'r tri cwestiwn ar gyfer yr un uned data (un trydariad), yna gellir hawlio ar sail hyn nad oes sôn penodol yng nghynnwys y trydariad. Nid yw hyn yn dweud wrth gwrs nad yw'r defnyddiwr sy'n trydar yn gwyllo'r darllediad ar y teledu neu arlein (o bosib ddim mewn amser real), ai peidio, dim ond eu bod ddim yn ymwneud â'r cynhyrchiad / cyfryngiad yn benodol er o bosib yn ymwneud neu drafod y digwyddiad yn fwy cyffredinol.

1. Mae'r trydariad yn defnyddio hashnod swyddogol ar gyfer y darllediad ac felly'n cydnabod y darllediad yn eu trydariad (rhaid codio hwn gan nad yw'r gronfa ddata'n gwahaniaethu rhwng hashnod, allweddair a defnydd cyfatebol o'r allweddair yng nghanol brawddeg neu air arall);
2. Mae'r trydariad yn ymateb neu yn crybwyll cyfrif Twitter swyddogol y rhaglen trwy ymateb "@", aildrydar, neu grybwyll trwy "@";
3. Mae elfennau sydd yn cydnabod neu drafod y rhaglen yng nghynnwys y trydariad. Gallai hyn fod yn drafodaeth am y darllediad, sylwadau am y wefan, sylwadau am gyflwynwyr y rhaglen ayyb.

Newidynnau a ystyriwyd yn wreiddiol ond na ddefnyddiwyd

Yn y rhestr godio drafft rhoddwyd rhai newidynnau ar gyfer codio yr ystyriwyd nad oeddent yn addas am resymau penodol.

Penderfynwyd nad oedd angen codio â llaw ar gyfer amser y trydariat (h.y. cyn, yn ystod, neu ar ôl TX) am bod hyn yn bosib ei drefnu o'r data a gafwyd gan Twitter.

Nid oedd gwerth gwneud gwaith dyfalu am ryw y defnyddiwr gan nad oes digon o ddangoswyr hunan-adnabod i wneud unrhyw godio yn safonol na'n ddigon cywir, ac felly yn annilys ar gyfer defnydd dadansoddi. Nid oedd unrhyw reswm cryf dros fod angen dadansoddi yn ô,

Roedd lleoliad ffisegol yn newidyn arall gafodd ei ystyried ond penderfynwyd nad oedd digon o wybodaeth yn y ddata er mwyn gallu penderfynu hyn yn bendant mewn nifer fawr o unedau data.

Newidynnau lle bo dadansoddiad testun / disgwrs yn digwydd

Yn y cyfeirlyfr codio drafft roedd dau newidyn lle byddai angen gwneud gwaith dadansoddi testun ar y cynnwys er mwyn gallu codio. Y ddau newidyn oedd y math o destun oedd yng nghynnwys y trydariat (dadansoddiad ieithyddol - register/genre), a'r math o bwnc roedd y trydariat yn ei drafod (dadansoddiad cynnwys). Penderfynwyd y byddai'n well hepgor hwn o'r ymchwil hwn gan bod yr elfennau iaith a chyfeiriad at y rhaglen yn ddigonol ar gyfer rhoi atebion i'r cwestiynau ymchwil.

Roedd yn bosibl hefyd i dynnu allan y nodweddion Twitter-benodol (e.e. ail-drydar, ymateb) ac nad oedd yn rhaid eu codio â llaw gan y byddai holi'r gronfa ddata drwy feddalwedd perthnasol yn tynnu allan y trydariadau â'r nodweddion hyn beth bynnag.

Atodiad 2

Cwestiynau Munud i Ddathlu

Dyma esiampl o'r cwestiynau cyfweld a ddefnyddiwyd ym Mhennod 7.

1. Cynhyrchu

Allwch chi ddisgrifio Munud i Ddathlu yn eich geiriau eich hun?

Beth oedd y rheswm dros greu'r prosiect?

O ble daeth y adnoddau ar gyfer y prosiect?

Wnaeth Cymdeithas yr Iaith Gymraeg gydweithio gyda unrhyw grŵpiau eraill ar gyfer Munud i Ddathlu?

- *(Sut wnaeth hynny weithio?)*

2. Disgwyliadau

Pa fath o impact oeddech chi'n gobeithio'i gael?

- *(ieithyddol? cyfryngol? ymgyrchol?)*

Pa fath o ymateb oeddech chi'n disgwyl ei gael ar y dechrau?

Oedd yna fwriad i Munud i Ddathlu symud i blatfformau cyfryngol eraill?

3. Proses

Yn fras, allwch chi ddisgrifio beth oedd strwythr cynhyrchu Munud i Ddathlu?

Oedd yna unrhyw broblemau wnaeth godi gyda'r prosiect? Os felly, beth oedden nhw?

- *(cyfranogiad? technegol? sylw? trefniadaethol?)*

- *(os oedd problemau beth oedd y rhesymau am hynny yn eich barn chi?)*

- *(os oedd problemau cyfranogiad, sut ydych chi'n meddwl byddai modd gwella lefel cyfranogiad?)*

Sut oeddech chi'n delio gyda lefelau gallu technegol gwahanol cyfrannwyr?

Beth yw eich barn ar y ffordd wnaeth pobol gymryd rhan yn y prosiect?

Sut gafodd Munud i Ddathlu ei farchnata / hyrwyddo?

- *(A yw denu sylw at brosiect fel hyn yn annodd? Os felly, pam?)*

4. Casgliadau / Argraffiadau

Allwch chi rannu rhai o uchafbwyntiau prosiect?

Beth oeddech chi'n meddwl oedd y rheswm dros yr uchafbwyntiau hynny?

Yn eich barn chi, beth mae Munud i Ddathlu wedi cyflawni?

Pe baech chi'n cael cyfle i wneud Munud i Ddathlu eto, beth fydddech chi'n ei newid?

Ydych chi'n meddwl bod gwahaniaeth yn faint mae pobol yn barod i gymryd rhan mewn prosiectau cyfranogol fel hyn drwy'r Gymraeg, o'i gymharu â drwy'r Saesneg?

Atodiad 3

Allforiad o gynnwys llinell amser Hanes y We Gymraeg.

Nid oedd modd allforio o feddalwedd TikiToki ar ffurf Word, dim ond PDF, CSV, JPEG neu JSON, felly er mwyn sicrhau bod y delweddau'n parhau, argraffwyd y fersiwn PDF. Yn anffodus nid oes modd rhoi rhifau tudalen ar y PDF.